**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30 Hydref 2019

Annwyl Gadeirydd,

**Maes Awyr Caerdydd**

Yn ystod y sesiwn tystiolaeth ar Faes Awyr Caerdydd ar 23 Medi, ble yr oeddwn yn bresennol gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, dywedais y busaswn yn ysgrifennu atoch gyda rhagor o wybodaeth mewn sawl maes. O ganlyniad i hynny, cefais lythyr gennych 4 Hydref 2019 yn gofyn am eglurhad ar nifer o bwyntiau ychwanegol. Rwyf wedi ateb pob un o'ch pwyntiau isod.

Wrth edrych ar berfformiad ariannol y maes awyr, roedd adroddiad Deloitte yn tynnu sylw at y gofynion cyllidol a pherfformiad gwaelodol y busnes yn ogystal ag ystyried telerau taliadau. Roedd yr adroddiad yn ystyried strwythur posibl y benthyciad yn y dyfodol a'r hyn fyddai'n strwythur masnachol priodol.

Yr egwyddor y tu ôl i roi benthyciad estynedig o £15.2 miliwn ychwanegol yn 2017 oedd i gydgrynhoi y ddyled bresennol a darparu rhagor o arian. Roedd cytundeb diwygiedig y benthyciad yn seiliedig ar yr un elfennau sylfaenol â'r benthyciad gwreiddiol, ond yn cynnwys y pwyntiau ychwanegol canlynol i sicrhau ei fod ar delerau masnachol priodol;

- cafodd y llog ei godi yn unol â fframwaith y Comisiwn Ewropeaidd;
- cafodd y cyfamodau eu cynnwys o fewn cytundeb y benthyciad ar gyfer mesur perfformiad;
- cafodd amserlen ad-dalu ei chynnwys yn seiliedig ar berfformiad realistig y busnes a fesul cam i sicrhau bod ad-daliadau ar sail llif arian parod realistig;
- roedd y cytundeb yn sicrhau bod y benthyciad yn cyfateb â rhai rhoddwr benthyciadau masnachol yn hytrach na rhiant gwmni neu is-gwmni. a
- roedd y benthyciad yn cyflwyno rheolaethau ychwanegol dros y cyfleuster i fenthyca.

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Yn dilyn y sesiwn tystiolaeth ar y 23 Medi, mae’r Pwyllgor yn ymwybodol bod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi cytuno i fenthyciad masnachol i'r maes awyr o £21.2 miliwn yn ychwanegol.  Bu inni barhau i ddefnyddio'r gwersi a gafodd eu dysgu a gallaf gadarnhau bod yr estyniad diweddar a gytunwyd ar gyfer y benthyciad yn seiliedig ar yr un egwyddorion sylfaenol â'r benthyciad a gafodd ei gydgrynhoi yn 2017. (Codwyd y mater hwn gennych gyda mi yn ystod y sesiwn tystiolaeth â’r Ysgrifennydd Parhaol ar 21 Hydref.  Fel un o’r camau a ddaeth o’r sesiwn hwnn, byddwn yn cysylltu â chi ar wahân i bennu’r rhesymau ar gyfer y benthyciad, faint o’r benthyciad blaenorol sydd wedi’i ddefnyddio hyd yma, a thelerau ad-dalu.)

O ran nifer y teithwyr, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw’r maes awyr wedi cyrraedd y sefyllfa a amlinellwyd yn y cynllun busnes a gytunwyd yn dilyn y prynu yn 2013. Mae fodd bynnag nifer o elfennau penodol sy'n dylanwadu ar hyn ac sydd angen eu hystyried wrth graffu yn erbyn targedau sydd wedi dod i ben. Mae'r amgylchedd weithredu wedi newid yn sylweddol ers i Llywodraeth Cymru brynu'r maes awyr.

Mae Brexit wedi achosi ansicrwydd sylweddol. Mae'r ffaith bod y bunt wedi gwanio wedi dylanwadu ar ddewisiadau teithwyr gwyliau wrth iddynt benderfynu a ydynt am deithio dramor ar gyfer eu gwyliau. Rydym, yn ddiweddar, wedi gweld gwelliant sylweddol yn y tywydd dros fisoedd y gwanwyn a'r haf - gan ei wneud yn fwy deniadol i deuluoedd fynd ar eu gwyliau yn y DU yn hytrach na theithio dramor. Mae'r cynnydd ym mhrisiau tanwydd wedi arwain at gwmnïau yn cyfuno na ragwelwyd o fewn y diwydiant awyrennau ac mae'r cynnydd hwn mewn costau wedi'u trosglwyddo i'r cwsmer drwy brisiau uwch i deithio ar awyrennau. Mae pob un o'r ffactorau hyn, ac eraill, wedi cael effaith gyfun sylweddol ar weithgareddau teithwyr awyrennau - ac nid yng Nghaerdydd yn unig.

Rydym hefyd wedi gweld newidiadau sylweddol yn y diwydiant awyrennau yn y blynyddoedd diwethaf nad oedd yn bosibl eu gweld yn ystod y cyfnod y paratowyd y cynllun busnes ar gyfer prynu.  Diolch i'r tîm o arweinwyr yn y maes awyr, rydym yn parhau i fod yn agos iawn at y cynllun cychwynnol. Mae'r maes awyr bellach yn croesawu bron i 1.7 miliwn o deithwyr y flwyddyn, sy'n dangos twf sylweddol o 65% mewn dim ond chwe mlynedd.

Drwy Holdco, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal trefn fonitro benodol, ar wahân, ac mae Bwrdd Holdco yn edrych ymlaen at dderbyn cynllun busnes diwygiedig Maes Awyr Caerdydd tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, fydd rydym yn rhagweld yn parhau i gynnig amlinelliad o'i gynlluniau ar gyfer twf ac ehangu, yn unol ag uchelgeisiau ei Gynllun Meistr 2040.

Yn ystod y trafodaethau ar y 23ain Medi, mrwymais i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am Rwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Caerdydd i Ynys Môn, Thomas Cook a Llu'r Ffiniau.

Cynhaliwyd adolygiad trylwyr o wasanaeth awyr Caerdydd i Ynys Môn cyn caffael y contract presennol. Roedd yr adolygiad, a gynhaliwyd gan arbenigwyr hedfan allanol, yn cynnwys amrywiol sefyllfaoedd ar gyfer y gwasanaeth gan gynnwys tynnu'r gwasanaeth yn ôl yn gyfan-gwbl, cynnal y gwasanaeth ac edrych ar opsiynau twf ac ehangu. Roedd y gwerth i economi Cymru yn ystyriaeth allweddol ym mhob rhan o'r astudiaeth. Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ar y tudalennau hedfanaeth ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2018, ac mae'n bosibl ei weld yma: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/gwaith-teg-cymru.pdf. Cyn ail-gaffael unrhyw gontract Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd dros bedair blynedd, y cynhelir adolygiad trylwyr o'r gwasanaeth i benderfynu a yw ei strategaeth a'i

bolisïau yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn ofynnol inni gyflwyno achos busnes i'r Comisiwn Ewropeaidd bob tro rydym yn gosod Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus pedair blynedd ar lwybr Caerdydd i Ynys Môn, sy'n pennu manteision economaidd y gwasanaeth. Caiff nifer y teithwyr Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf (1 Ebrill 2018 - 31 Mawrth 2019) eu cyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ac mae'n bosibl eu gweld yma: https://llyw.cymru/y-gwasanaeth-awyr-oddi-mewn-i-gymru-ein-rol?_ga=2.35224033.1915669264.1572352458-275369678.1569850781. Byddwn yn nodi'r ffigurau diweddaraf ar gyfer teithwyr eto ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Mae nifer y teithwyr yr ydym yn adrodd arnynt, ac yn eu cyhoeddi, yn seiliedig ar deithiau gwirioneddol a gymerwyd. Mae'n werth nodi nad yw oddeutu 5-10% o deithwyr sy'n archebu tocyn i deithio yn ymddangos ar y diwrnod am ba bynnag reswm (mae hyn yn arferol, ac yn enwedig felly ar gyfer gwasanaethau tocyn cost isel). Nid oes modd ail-werthu'r seddi hynny, ar gyfer y Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus. Nid ydym yn caniatáu i'r cwmni hedfa 'or-archebu' yn y modd y mae nifer o gwmnïau masnachol yn ei wneud, gan y byddai hyn yn golygu bod risg gwirioneddol o orgapasiti o ran y PSO a fyddai'n golygu y byddai'n rhaid i staff y maes awyr wrthod ein teithwyr.

O ran y llwybrau a gynigwyd gan Thomas Cook; roedd yn cynnig y 10 gyrchfan ganlynol o Gaerdydd:

- Antalya
- Dalaman
- Enfidha
- Lanzarote
- Larnaca
- Palma
- Reus
- Rhodes
- Tenerife
- Zante

Mae pob un o’r llwybrau uchod yn cael eu gwasanaethu hefyd allan o Gaerdydd gan Tui, ac mae gan Palma wasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan Vueling. Mae gan Tenerife wasanaethau ychwanegol ar hyn o bryd sy'n cael eu cynnal gan Ryanair (tan fis Ionawr).

Yn olaf, buom hefyd yn trafod presenoldeb Llu'r Ffiniau ym Maes Awyr Caerdydd o ran eu cynllunio ar gyfer Brexit. Mae cydweithwyr yn y maes awyr wedi ein hysbysu nad yw Llu'r Maes Awyr wedi cynyddu eu presenoldeb parhaol yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, yn ogystal â phorthladdoedd eraill, bydd yn cael mynediad at bwll o swyddogion symudol i ddefnyddio eu gwasanaethau os digwydd problemau mawr. Mae Llu'r Ffiniau yn ystyried e-glwydi fel rhan bwysig o'i gynllunio wrth gefn ar gyfer Brexit, ac mae wedi ehangu defnydd y clwydi i grwpiau ychwanegol o ddeiliaid pasbort i liniaru ymhellach y perygl o giwiau mewn meysydd awyr amlwg ble y mae nifer fawr o deithwyr. Rydym yn cydnabod y fantais fyddai hyn yn ei olygu i Gaerdydd ac roedd yn elfen allweddol ym mhenderfyniad y Gweinidog i ariannu pump o e-glwydi newydd ar gyfer Pasbortau a gafodd eu gosod a'u lansio yn gynharach eleni, gan ddisodli e-glwydi y genhedlaeth gyntaf a osodwyd gan UKG yn y gorffennol.

Gadewch imi wybod os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach.

Pob dymuniad da.

Yn gywir

**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol